




Dynodi AHNE

ADRAN UN DYNODI AHNE

1. DYNODI AHNE

Dynodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ym mis Gorffennaf 1985.

1.1 Pwrpas y Dynodiad

Mae AHNE, ynghyd â Pharciau Cenedlaethol yn cydnabod ein tirweddau gorau ac yn pennu fframwaith ar gyfer eu gwarchod a'u gwella.

Prif bwrpas statudol dynodi darn o gefn gwlad fel AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Mae'r syniad o 'harddwch naturiol' yn cynnwys gwarchod fflora, anifeiliaid a nodweddion geolegol a thirweddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod dimensiwn diwylliannol y dirwedd, gan gynnwys elfennau hanesyddol, ysbrydol, ynghyd â ffurf ffisegol y tir yn cael eu cydnabod yn llawn. Yng Nghymru, mae dimensiwn ychwanegol yr iaith yn darparu elfen hanfodol o gyfoeth diwylliannol sydd angen ei gydnabod hefyd. Dylid cyfannu'r rhain oll o fewn rheolaeth yr AHNE



Wrth ddilyn pwrpas sylfaenol dynodiad, dylid cymryd i ystyriaeth anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth a diwydiannau gwledig eraill. Mae anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol ac, yn benodol, hybu mathau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sydd ynddynt eu hunain yn gwarchod a gwella'r amgylchedd yn hanfodol. Mae cyfraniad a wneir gan yr amgylchedd i safon bywyd a'r fantais economaidd y mae'n ei chreu yn arwyddocaol. Mae hyn yn awgrymu'r angen am agwedd gyfun tuag at reolaeth yr AHNE a chyflawni cadwraeth trwy gyfrwng datblygiad cymdeithasol ac economaidd priodol.

Mewn gwrthgyferbyniad i Barciau Cenedlaethol, ni roddwyd pwrpas adloniadol statudol i AHNE ar gyfer darparu cyfleoedd adloniadol. Fodd bynnag, fel ardaloedd deniadol, maent wastad wedi bod yn boblogaidd gydag ymwelwyr, a chydabyddir bod angen bodloni'r galw cyn belled â bod hynny'n gyson gyda chadwraeth yr ardal ac anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnydd arall.

Yng Nghymru, mae'r angen statudol i Gynulliad Cymru ddilyn Datblygiad Cynaliadwy yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r rhyngweithiad rhwng cadwraeth AHNE ac anghenion adloniant a thwristiaeth, yr economi lleol a chymunedau lleol.



1.2 Hanes y Dynodiad

Cynyddodd yr hwb i archwilio'r syniad o dirwedd wedi ei dynodi ar ôl Rhyfel Byd II gyda'r gydnabyddiaeth bod angen, fel rhan o waith ail-adeiladu ar ôl y rhyfel, dirweddau fel dull o amddiffyn yn erbyn datblygiad di-eisiau ac fel mannau adloniant ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol.

Yn ei adroddiad i'r Weinidogaeth Cynllunio Gwlad a Thref ym 1945, o'r enw 'National Parks in England and Wales', adnabu John Dower nid yn unig ardaloedd gyda'r potensial i fod yn Barciau Cenedlaethol, ond hefyd ardaloedd... "deserving and requiring the special concern of local and central planning authorities". Roedd y gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd hyn a'r rhai a nodwyd fel Parciau Cenedlaethol posibl yn bodoli yng nghymeriad ac nid safon y dirwedd. Arweiniodd yr Adroddiad hwn ynghyd ag Adroddiad Syr Arthur Hobhouse i Bwyllgor Parciau Cenedlaethol at 'Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949' a ddarparodd ar gyfer dynodiad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan y Comisiwn Parciau Cenedlaethol. Yn hyn o beth felly mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol â'r un statws o ran tirwedd a harddwch golygfeydd.

Ers hynny, dynodwyd 41 AHNE yng Nghymru a Lloegr, gyda 4 yn gyfan-gwbl yng Nghymru ac un, Dyffryn Gwy, yn pontio'r ffin rhwng y ddwy wlad.

2 AHNE Bryniau Clwyd 1983 – 2003

2.1 Datganiad o Fwriad (1983)

Ym 1983, cyhoeddodd yr awdurdodau ar gyfer AHNE arfaethedig Bryniau Clwyd Ddatganiad Bwriad ar y cyd a oedd yn ceisio:

- Dwyn ynghyd yr holl bolisiau presennol ar gyfer yr AHNE
- Darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisiau cynllunio a rheoli i'r dyfodol ar gyfer Bryniau Clwyd.

2.2 Y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol

Sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol (CBY) ar gyfer Bryniau Clwyd pan ddynodwyd yr AHNE ym 1985. Ei rôl yw cynghori'r awdurdodau cyfansoddol ac asiantaethau ar gyflawni amcanion yr AHNE. Nid yw hon yn rôl oddefol. Mater i'r CBY yw darparu impetws, grym gweithredu ac arweiniad o ran cydlynu rheolaeth effeithiol yr ardal hon (gweler yr atodiad am amcanion manwl a rhestr lawn aelodau).

Mae gan y CBY adnoddau grymus o ran ystod a dyfnder profiad ac arbenigedd gwleidyddol a phroffesiynol. Mae'n cynrychioli awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, buddiannau cadwraeth ac adloniant. Caiff ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion perthnasol o'r awdurdodau lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig.

2.3 Cynllun Rheoli Bryniau Clwyd (1989) a'r Strategaeth Interim (1996)

Mae'r ddwy ddogfen yma'n nodi amcanion cyffredinol a chanllawiau ar gyfer yr AHNE. Roedd Strategaeth Interim 1996 yn bennaf yn ddiweddariad o gynllun 1989, gyda'r ddau wedi eu bwriadu i 'gydbwyso anghenion amrywiol ddefnyddwyr Bryniau Clwyd a'r rhai sy'n chwarae rhan mewn gwarchod a gwella bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn gyffredinol, a throsi polisiau yn amcanion penodol a chynigion ar gyfer gweithredi. Roedd hefyd yn rhoi fframwaith ar gyfer cymryd penderfyniadau, datrys angydfod a llywio cynllunio a rheolaeth yr AHNE.

2.4 Strategaeth Rheoli Bryniau Clwyd, 2000

Cychwynnodd Strategaeth Rheoli Bryniau Clwyd 2000 gydnabod yr ystod anferth o bynciau a oedd yn destun sylw Pwyllgor yr AHNE. Gobeithiai gydbwyso anghenion holl ddefnyddwyr Bryniau Clwyd, o drigolion a'r rhai sy'n ennill bywoliaeth yn yr ardal i ymwelwyr sy'n mwynhau'r mannau agored yn y dirwedd.





CYD-DESTUN Y CYNLLUN RHEOLI

Mae Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw Weinidog y Goron, corff cyhoeddus neu unrhyw ymgymerdd statudol, unrhyw berson mewn swydd gyhoeddus "to have regard to the purpose of conserving and enhancing the natural beauty of the area of outstanding natural beauty." Mae'r cymal hwn yn cynnwys holl adrannau llywodraeth ynghyd ag awdurdodau lleol a chwmnïau prifion a breifateiddiwyd. Mae llawer wedi llunio polisi tuag at AHNE. Mae polisiâu a deddfwriaeth arall, tra nad ydynt yn crybwyll yr AHNE yn benodol, yn cael effaith ar ei rheolaeth.

3 POLISIÂU EWROPEAIDD

3.1 CONFENSIWN TIRWEDD EWROP

Er nad yw'r DG eto wedi llofnodi Confensiwn Tirwedd Ewrop mae'n nodi yn glir agenda ar gyfer amddiffyn a rheoli tirwedd ar lefel Ewropeaidd ac felly mae'n elfen bwysig wrth ystyried agwedd strategol. Mae'r Confensiwn yn gofyn i wladwriaethau aelodol:

- a) gydnabod tirweddau dan y gyfraith fel elfen hanfodol o amgylchfyd pobl, mynegiant o amrywiaeth eu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, a sylfaen eu hunaniaeth;
- b) sefydlu a gweithredu polisiâu tirwedd wedi eu hanelu at warchod, rheoli a chynllunio tirweddau;
- c) sefydlu trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, awdurdodau lleol a rhanbarthol a phartion eraill gyda diddordeb wrth ddiffinio a gweithredu polisiâu tirwedd;
- ch) integreiddio tirwedd mewn polisiâu cynllunio rhanbarthol a threfol ac mewn polisiâu diwylliannol, amgylcheddol, amaethyddol, cymdeithasol ac economaidd, ynghyd ag unrhyw bolisiau eraill gydag effaith bosibl neu anuniongyrchol ar dirwedd.

Yn benodol, mae'r Confensiwn yn gofyn i bob gwlad ymgymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o amddiffyniad tirwedd, adnabod nodweddion tirwedd arbennig a phennu a gweithredu amcanion ar gyfer amddiffyn, rheoli a chynllunio tirwedd.

3.2 Amcan 1

Mae Sir Ddinbych wedi ei dynodi fel ardal Amcan 1 gan y GE, sy'n rhoi hawl iddi dderbyn amrywiaeth o becynau grant i adfywio'r economi gwledig.

Mae Cadwyn Clwyd, gan ddefnyddio arian amcan un, fel rhan o'u rhaglen Leader+, wedi sefydlu Menter Gweithredu Bryniau Clwyd, sy'n ceisio ysgogi projectau peilot ar gyfer adfywiad gwledig cynaliadwy sy'n rhy newydd a blaengar i eraill eu cefnogi ar eu pennau eu hunain. Mae amcanion y fenter hon yn gwbl gydnaws gyda'r amcanion ar gyfer yr AHNE ac mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer y Project Leader + yn nodi 'The Local Development Strategy will also complement and provide an extension to the Sustainable Development Fund allocated to the Clwydian Range AONB. The SDF will provide a mechanism for implementing innovative sustainable environmental projects for local communities. Leader + will provide an essential test bed for new and novel ideas in this area.' Mae swyddogion AHNE yn gweithio'n agos gyda staff CADWYN ac eisoes wedi cefnogi nifer o brojectau cymunedol ar y cyd gan gynnwys gwaith gwella amgylcheddol megis adfer comin a phyllau a llyfryn yn dathlu treftadaeth naturiol a hanesyddol Cwm, Waen a Thremeirchion.

3.3 Polisi Amaethyddol Cyffredin

Mae Polisi Amaethyddol Cyffredin yn diffinio sut caiff amaeth ei chefnogi neu fel arall mewn gwladwriaethau sy'n aelodau o'r Undeb. Efallai y bydd y newidiadau a fydd yn deillio o'r arolwg CAP yn ddiweddar yn cael effaith arwyddocaol ar yr AHNE gan fod ffermio yn ddefnydd tir pwysig yn yr ardal. Mae canlyniad terfynol y diwygiad yn aniscr o hyd ond mae datgysylltu cymhorthdal a chynnyrch a'r posibilrwydd o newid y cynllun amaeth-amgylchedd yn golygu efallai y bydd cyfle i sicrhau bod cymhorthdal ffermio yn yr AHNE yn cael ei addasu i fodloni anghenion penodol rheoli tir mewn tirwedd a warchodir.

Er bod manylion union ddulliau talu i'w cwblhau mae'n ddiddorol nodi y bydd angen i gynhyrchwyr ffermio yn weithredol a chynnal "mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da" yr holl dir a ddeler fel hawliad i daliad.

Er nad yw cyflymder newid yn hysbys eto rhagwelir y bydd cynhyrchu cig eidion a defaid Cymru yn syrthio ac mae'n debygol y bydd pob busnes ffermio yn adweithio'n wahanol wrth iddo fanteisio ar gyfleoedd marchnata.

3.4 Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewrop

Amcan Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewrop 1992 oedd sefydlu rhwydwaith o safleoedd cadwraeth natur eithriadol ledled Ewrop. Roedd pob gwlad yn nodi safleoedd ymgeisio o bwysigrwydd penodol ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau penodol, a elwir yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu SAC, er mwyn rhoi amddiffyniad ychwanegol i'r ardaloedd hynny. Mae Coed Dyffryn Alun yn un o ymgeiswyr SAC Prydain

4 POLISIÂU CENEDLAETHOL - CYMRU

4.1 Cynllun Gofodol Cymru – Pobl, Mannau, Dyfodol – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu am "Gymru ddeinamig, ffyniannus a chynhwysol lle mae ein treftadaeth a'n hamgylchedd yn cael eu gwerthfawrogi a lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd a chyda'n cymdogion i gyflawni datblygiad cynaliadwy ledled Cymru." Mae'n ystyriaeth o beth a ddylai ddigwydd yng Nghymru ac yn nodi fframwaith ar gyfer cynllunio. Y gwerthoedd a'r amcanion allweddol yw Parchu Gwahaniaeth, Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd, Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy, Cynyddu a Lledaenu Ffyniant a Chyflawni Mynediad Cynaliadwy. Wrth bennu'r gwerthoedd hyn mae'n cydnabod eu bod yn rhyng-ddibynnol. Gan fo'r amgylchedd yn dibynnu ar gymunedau bywiog gyda syniad cryf o le, mae'r cymunedau hyn yn dibynnu ar ffyniant a hygyrchedd cynaliadwy.

4.2 Yr Economi Gwyrdd – Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Mae'r adroddiad hwn yn adnabod bod yr economi a'r amgylchedd yn gysylltiedig a bod rheoli a defnyddio'r amgylchedd yn cael effaith ar economi Cymru. Mae'n herio'r dybiaeth bod gwrthdrawiadau naturiol rhwng ystyriaeth economaidd ac amgylcheddol ac yn honni bod yr amgylchedd yn sylfaenol i'r economi Cymreig. Mae ein cefn gwlad yn darparu nid yn unig leoliadau gwych i fyw a gweithio ynddynt, ond hefyd yn sylfaen i'r economi gwledig ar yr hwn y mae swyddi amaethyddol, coedwigaeth, pysgota, twristaeth a'r sector cyhoeddus yn dibynnu. Mae'r amgylchedd yng Nghymru yn cefnogi 120,000 swydd lawn amser ar hyn o bryd. Mae buddsoddiad yn yr amgylchedd yng Nghymru yn fuddsoddiad yn isadeiledd economaidd y wlad.

4.3 Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Mae'r Gofrestr (1988) nad yw'n ddogfen statudol, yn adnabod y tirweddau hanesyddol gorau ledled Cymru. Mae'r tirweddau hyn yn cynnwys tystiolaeth ffisegol o oesau a fu ac mae ganddynt rôl unigryw wrth gysylltu gorffennol dynol gyda'r hyn a welwn heddiw. Mae Dyffryn Clwyd wedi ei hadnabod fel tirwedd hanesyddol eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn cynnwys tir o Dreimeirchion i'r de i Ddinbych a Rhuthun, ac i'r dwyrain i gynnwys bryngaerau Moel y Gaer, Bodfari; Pen y Cloddiau; Moel Arthur; Moel y Gaer, Llanbedr a Foel Fenlli. Mae rhan helaeth o AHNE Bryniau Clwyd felly yn syrthio o fewn yr ardal hon. Mae'r dirwedd wedi ei dynodi oherwydd y dystiolaeth bwysig ar gyfer defnydd tir cynhanesiol hwyr a chanoloesol. Tra nad yw'n statudol mae'r ddogfen hon yn bwydo gwybodaeth i'r broses gynllunio ac yn ystyriaeth mewn gwaith rheoli i'r dyfodol.

4.4 'Polisi Cynllunio Cymru' (2002) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG). Noda "National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty (AONB's) are of equal status in terms of landscape and scenic beauty and an both must be afforded the highest status of protection from inappropriate development. This equivalent status means that National Parks and AONB's must be treated the same in development plan policies and development control decisions".

4.5 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' (2000) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywed yn yr adran ar Barciau Cenedlaethol ac AHNE "Mineral development should not take place in these areas save in exceptional circumstances. All minerals applications must therefore be subject to the most rigorous examination..." Dywed hefyd "Mineral development, proposed adjacent or close to a National Park or AONB, that affect the setting of these areas should be assessed carefully to determine whether the environmental and amenity impact is acceptable or not".

Tra bo'r cynlluniau hyn yn benodol i gynllunio, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cydnabod AHNE mewn dogfennau eraill.

4.6 Mae 'Strategaeth Ddiwylliant ar gyfer Cymru (2001) yn cydnabod "The culture of Wales also has a physical dimension that embraces both the national and historic environment, some 25% of the land area of Wales is recognised for its exceptional landscape qualities through designation as a National Park or Area of Outstanding Natural Beauty



4.7 Yn y 'Cynllun i Gymru (2001) mae LICC yn nodi y medrent wella'r amgylchedd trwy "supporting sustainable development projects with Wales' National Parks and AONB's"

Mae wedi wedi cymryd ffurf Cronfa Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer pob AHNE yn buddsoddi £300,000 ym mhob un dros gyfnod 6 blynedd.

4.8 Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Dan Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, rhoddwyd dyletswydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru hybu datblygiad cynaliadwy ym mhob peth a wna.

Mae'r Cynllun Datblygiad Cynaliadwy (CDC) 'Dysgu sut i Fyw yn Wahanol' Tachwedd 2000, yn nodi sut mae'n bwriadu gweithredu'r ddyletswydd hon. Ymgorfforir yr egwyddorion hyn ym mhob agwedd o reolaeth AHNE ac mae datblygiad cynaliadwy yn thema annatod yn y cynllun rheoli.

4.9 Strategaeth 'Coedlannau ar gyfer Cymru' Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth 'Coedlannau ar gyfer Cymru' yn 2001. Nid oes gan y strategaeth amcanion penodol ar gyfer coedlannau mewn AHNE, ond mae nifer o elfennau sy'n berthnasol (gweler atodiad) ac fe'i defnyddir i arwain rheolaeth coedlannau yn yr AHNE. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, yn rheoli darnau mawr o goedwig - Coed Moel Famau, Coed Nercwys a Llangwyfan – yn yr AHNE. Mae rheoli'r coedlannau hyn yn seiliedig ar amcanion yn strategaeth Coedlannau ar gyfer Cymru,

Er enghraifft:-

Amcan: Defnyddio coedlannau i helpu creu profiad safon uchel i ymwelwyr. Yn yr AHNE mae'r bartneriaeth yn gweithio ar lwybr holl ddefnyddwyr yng Nghoedwig Nercwys ac yn gwella'r rhwydwaith llwybrau yng Nghoed Moel Famau, gan gynnwys Llwybrau Posau Anifeiliaid i deuluoedd ac ysgolion.

Amcan: Hybu iechyd trwy gyfrwng mynediad i goedlannau i holl gymunedau. Mae taith gylchol i fyny Moel Famau, gan ddefnyddio llwybrau coedwig yn rhannol, yn daith cyfrif kaloriâu gyntaf a hybir gan y Comisiwn Coedwigaeth.

4.10 Bwrdd Croeso Cymru Mae eu strategaeth 'Best Foot Forward – a Walking Tourism Strategy for Wales 2002-2010, yn berthnasol iawn i'r AHNE. Strategaeth y weledigaeth yw '...of Wales as the best UK walking tourism destination, offering the widest choice, and the best managed, presented, and promoted walking visit opportunities of anywhere in the UK.' Mae'r pwyslais ar ddatblygu a hybu twristiaeth cynaliadwy yn gyfan-gwbl unol ag amcanion yr AHNE.

5 POLISIÂU A DEDDFWRIAETHOL PERTHNASOL Y DG

5.1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf CROW 2000

Mae 8 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, SDdGA, yn yr AHNE sydd wedi eu gwarchod yn gyfreithiol dan y deddfau hyn, gyda CCGC yn gyfrifol am eu hamddiffyn. Rhyngddynt mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint yn medru ar ddau o'r safleoedd hyn yn Loggerheads a Bryn Prestatyn ac mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn eu rheoli mewn ymgynghoriad gyda CCGC. Mae Coedlan Dyffryn Alun ac Ogofâu Alun hefyd yn ymgeiswyr SAC.

5.2 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

Mae'r ddeddf hon yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer adnabod a gwarchod henebion rhestredig. Mae 35 heneb rhestredig yn AHNE Bryniau Clwyd ar hyn o bryd sydd wedi eu gwarchod dan y ddeddf. Mae'r rhain yn amrywio o fryngaerau mawr fel Pen y Cloddiau i ogofâu bach ar lethrau'r Gop yn Nhrelawnyd a'r claddfeydd oes efydd yn The Piggeries, ger Llanrmôn yn lâl. Mae Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn meddu ar neu'n rhannol-feddu pedair o'r fryngaerau mwy – Foel Fenlli, Moel y Gaer, Llanbedr; Moel Athur a Phen y Cloddiau. Gwnaed gwaith rheoli gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad ar y cyd gyda CADW ar nifer o'r safleoedd hyn.

5.3 Deddf Dwr 1989

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd hawliau rheolaeth amgylcheddol statudol dan Ddeddf Dwr 1989. Mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i warchod a gwella ansawdd dwr. Mae'r asiantaeth yn cyhoeddi Cynlluniau Asiantaeth Amgylcheddol Lleol (LEAP) i reoli dalgylchoedd afonydd yn gynaliadwy.

Yn yr AHNE mae ansawdd dwr afon Alun a Chwiler yn cael ei fonitro gan yr AA yn rheolaidd. Mae Afon Alun yn tueddu i orlifo, ac mae Coed Cymru a'r AA yn archwilio dulliau o leihau effaith llifogydd difrifol trwy blannu coed a choedlannau cynhenid.

6. POLISI'AU LLEOL

Mae adran 84 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi hawl i awdurdodau cynllunio lleol 'take all such actions as appear to them expedient for the accomplishment of the purpose of conserving and enhancing the natural beauty of the area'.

6.1 Polisiâu Cynllunio Lleol

Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych (2002)
– Cyngor Sir Ddinbych Mae Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych yn delio gyda'r cyfnod 1996-2001 ac fe'i mabwysiadwyd yn 2002. Fel dogfen a fabwysiadwyd rhaid penderfynu holl geisiadau cynllunio yn unol â'i pholisiau oni fo ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.

Polisi ENV2 "Caiff datblygiad sy'n effeithio'r Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ei asesu yn erbyn yr amcan cynllunio sylfaenol er mwyn amddiffyn a gwella harddwch naturiol yr ardal, Caniateir datblygiad graddfafechan dim ond lle na fydd yn andwyo cymeriad a golwg yr AHNE.

Bydd datblygiad diwydiannol a masnachol mawr yn yr AHNE yn destun archwiliad trylwyr iawn ac ni chaiff ei ganiatáu oni fo angen mawr o ran diddordeb cenedlaethol a brofwyd ac nid oes unrhyw safleoedd amgen.

Dylid dynodi datblygiad yn yr AHNE i safon uchel a chyfrannu tuag at gadwraeth a gwella harddwch naturiol yr ardal."

Polisi HSG17 "Ni chaniateir safleoedd sipsiwn yn yr AHNE neu'r AHE"

Polisi MEW1 "Caniateir ceisiadau i weithio mwynau neu estyniad i weithrediadau presennol yn yr AHNE dan amgylchiadau eithriadol yn unig".

'Cynllun Datblygiad Unedol Drafft Sir y Fflint Plan (2002)'

Polisi L2 "Caniateir datblygiad o fewn neu sy'n effeithio'r AHNE dim ond:

- a) pan fo'n cynnal a lle'n briodol, yn gwella cymeriad traddodiadol a gwledig cynhenir yr ardal, a
- b) caiff ei ddylunio i safon uchel gan ddefnyddio deunyddiau a phlannu traddodiadol

Bydd datblygiad diwydiannol a masnachol mawr yn yr AHNE yn destun archwiliad trylwyr iawn ac ni chaiff ei ganiatáu oni fo angen mawr o ran diddordeb cenedlaethol a brofwyd ac nid oes unrhyw safleoedd amgen"

6.2 Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth LLEOL Sir Ddinbych a Sir y Fflint

Mae'r cynlluniau hyn, a gyhoeddwyd yn 2003, yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y siroedd, i roi stop ar ddirywiad cynefinoedd a rhywogaethau a chynorthwyo eu hadferiad. Maent yn gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG ar lefel leol. Mae gwarchod cynefin a rhywogaeth yn yr AHNE yn cael ei arwain gan yr argymhellion yn CGBLL Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

6.3 'Pick and Mix' Dewis Diwylliant a Hamdden yn Sir Ddinbych

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n rheoli'r AHNE yn rhan o adran Diwylliant a Hamdden Cyngor Sir Ddinbych.



Y weledigaeth yn y stratgaeth 'Pick and Mix' yw:

"Dathlu a hyrwyddo diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych, creu amgylchfyd lle gall diwylliant a hamdden ffynnu a chwarae rhan sylfaenol wrth gyfoethogi bywydau pobl ac adfywio'r sir."

Mae'r strategaeth yn nodi chwe thema i gyflawni'r weledigaeth

1. Agor drysau
2. Dysgu ar gyfer Oes
3. Cyfle i Bawb
4. Gweithio Gyda a Thrwyr Eraill
5. Ymdrechu am y Gorau
6. Cyflwyni'r Weledigaeth

Mae'r themâu hyn wedi eu hystyried wrth ddatblygu cynllun rheoli'r AHNE, ac felly'n rhedeg trwy'r cynllun.



6.4 Strategaethau Cymunedol

Mae Strategaethau Cymunedol Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn ddogfennau canolof o ran pennu agenda ar gyfer cyflwyno gwasanaethau awdurdod lleol. Mae nodweddion arbennig AHNE, yr angen i'w gwarchod a'u gwerth i'r gymuned leol angen eu cydnabod yn llawn yn y Strategaethau Cymunedol hyn.

Mae swyddogion Datblygiad Cymunedol o'r ddwy sir wedi chwarae rhan yn y broses ymgynghori ar gyfer y cynllun rheoli AHNE ac, ynghyd ag ymgynghoriad parhaus, bydd hyn yn sicrhau bod y Strategaethau Cymunedol yn berthnasol i a chyson gyda'r cynllun rheoli.

6.5 Cynlluniau Cludiant Lleol

Mae Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi cyhoeddi Cynlluniau Cludiant Lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys darparu cysylltiadau cludiant cyhoeddus gyda chymuendau gwasgaredig a gwasanaethau bws hamdden yn crwydro'r AHNE. Mae swyddogion AHNE yn gweithio gyda staff Priffyrdd i sicrhau bod llwybrau yn fanteisiol i ymwelwyr a chymunedau yn yr AHNE.

7 CYFRANOGIAD Y SECTOR GWIRFODDOL

Mae'r sector gwirfoddol yn rhan bwysig o reolaeth tir Bryniau Clwyd ac maent yn rheolir canlynol:

7.1 Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Yn meddu ar a rheoli Graig Fawr, ger Dyserth

7.2 Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru

Mae ganddi ddwy warchodfa fechan, Y Graig ac Aberduna, yn yr AHNE.

7.3 Ymddiriedolaeth Coedlannau

Mae'r Ymddiriedolaeth Coedlannau yn meddu ar a rheoli tair coedlan yn yr AHNE, yng Nghoed Ceunant, yng Nghoed y Felin a Choed y Glyn

8 RHWYDWAITH TIRWEDD A AMDDIFFYNNIR

Nid yw AHNE Bryniau Clwyd yn bodoli ar ei phen ei hun ond yn hytrach mae'n rhan o rwydwaith o dirweddau wedi eu hamddiffyn yn y DG a ledled y byd. Yn y DG, mae Bryniau Clwyd yn rhan o deulu o dirweddau, sy'n cynnwys AHNE yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, Parciau Cenedlaethol Lloegr, Cymru a'r Alban ac Ardaloedd Golygfeydd Cenedlaethol Yr Alban. Gyda'i gilydd maent yn cynnwys bron i 6.5 miliwn hectar neu 26% o arwynebedd tir y DG.

8.1 Cymdeithas Genedlaethol AHNE – Sefydlwyd hon ym 1998 fel corff annibynnol i weithredu ar ran AHNE yng Nghymru a Lloegr. Ei rôl yw codi proffil AHNE a sicrhau bod eu cadwraeth a'u gwella yn ymddangos ar lefel genedlaethol. Chwaraeodd rôl arbennig wrth sicrhau bod pwysigrwydd AHNE yn ymddangos yn amlwg yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Gweledigaeth hirdymor y Gymdeithas yw bod yn rhan o gorff annibynnol pwysig yn cynrychioli'r rhai sy'n gyfrifol am a chwarae rhan yn y gwaith o reoli ardaloedd tirwedd a amddiffynnir o bwysigrwydd rhyngwladol yn y DG."

Yn hyn o beth mae'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau perthynas waith agos gyda Pharciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr trwy Gymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r berthynas waith hon yn arbennig o berthnasol yn wyneb Deddf CROW sy'n dodi AHNE yn gyfartal gyda Pharciau Cenedlaethol. Mae llawer o elfennau Deddf yr Amgylchedd 1995 fel y mae'n berthnasol i Barciau Cenedlaethol wedi eu hadlewyrchu yn Neddf CROW 2000 ar gyfer AHNE er mwyn cryfhau sylfaen statudol AHNE. Efallai y bydd yr Arolwg Parciau Cenedlaethol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn agor y drws i gydweithio cynhyrchiol a helpu datblygu fframwaith ar gyfer rheolaeth gyson ar draws tirweddau a ddynodwyd yng Nghymru.


8.2 Undeb Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Natur (IUCN) ac Adnoddau Naturiol - Tirweddau Categori V

Mae AHNE ynghyd â thirweddau eraill a ddynodwyd yn y DG yn rhan o rwydwaith byd-eang ac yn bodoli o fewn categori o ardaloedd a amddiffynnir, a elwir yn 'Dirweddau a Amddiffynnir'. Mae Categori V yn cyfeirio at un o chwe categori o ardaloedd a amddiffynnir. Mae Tirweddau Categori V yn cydnabod arwyddocâd AHNE yn nhermau byd-eang ac yn sicrhau agwedd gyson tuag at gadwraeth tirwedd yn rhyngwladol.

Mae IUCN yn cydnabod bod meddylfryd ar ardaloedd a amddiffynnir wedi bod yn newid. "Whereas protected areas were once planned against people, now it is recognised that they need to be planned with local people, and often for and by them as well. Where once the emphasis was on setting places aside, we now look to develop linkages between strictly protected core areas and the areas around: economic links which benefit local people, and physical links, via ecological corridors, to provide more space for species and natural processes."

Trwy Dirweddau Categori V mae IUNC nawr yn gweithio tuag at:

- Helpu hunanlywodraethu cymunedau lleol i fod yn gyfranogwyr gweithgar wrth adnabod a rheoli tirweddau a amddiffynnir a dangos sut y gall y canlyniadau fod o fudd i'r gymuned;
- Hybu gwerth, pwysigrwydd a dealltwriaeth y syniad tirwedd a amddiffynnir fel agwedd reoli tuag at ystod o ardaloedd a amddiffynnir a'r ardal wledig yn ehangach;



AHNE a Pharciau Cenedlaethol

- ° Bydd y rhaglen fyd-eang yn hybu a dangos defnydd a gwerth (Torweddau a Amddiffynnir) Categori V fel mecanwaith swyddogaethol ac ymarferol ar gyfer amddiffyn bioamrywiaeth, amrywiaeth diwylliannol a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- ° Yn dilyn penderfyniad Montreal 1996, a oedd yn gofyn i IUCN ddatblygu cyd-destun tirwedd a amddiffynnir a chael cefnogaeth i ddefnydd ehangach Categori V, bydd y tasglu yn datblygu rhaglen fyd-eang ar gyfer tirweddau a amddiffynnir ar gyfer World Commission for Protected Areas.

8.3 IUNC ar yr angen i ystyried Newid Hinsawdd mewn Cynllunio Amgylcheddol

Mae newid hinsawdd yn un o'r prif heriau amgylcheddol yn yr 21ain ganrif. Mae cynhesu atmosffer y Ddaear eisoes yn cael effaith andwyol ar ecosystemau bregus a bywoliaeth pobl dlawd yn fyd-eang. Rhagwelir y bydd y tueddiadau hyn yn cyflymu dros y degawdau i ddod.

Mae newid hinsawdd yn flaenoriaeth i IUCN oherwydd bod cysylltiad clos gyda'i weledigaeth: byd cyfiawn sy'n gwerthfawrogi a gwarchod natur. Oherwydd y bygythiad i ecosystemau a phobl, ni fedrwn gyflawni'r weledigaeth hon heb gymryd newid hinsawdd i ystyriaeth.

Bydd deall sut mae newid hinsawdd yn cael effaith ar natur a chymdeithas yn ein helpu i liniaru ac addasu i newid hinsawdd yn llwyddiannus mewn dull sy'n amgylcheddol-briodol a chymdeithasol deg.

9. PROSES CYNLLUN RHEOLI

9.1 Y cyfnod cyntaf oedd cynhyrchu adroddiad Cyflwr yr AHNE a oedd yn darparu sylfaen ar gyfer mesur cyflwr yr AHNE. Mae'r ddogfen hon yn ystyried Nodweddion Arbennig sy'n ffurfio nodweddion eithriadol yr AHNE ac adnabod eu maint a'u cyflwr presennol. O fewn hyn mae'r prif bwysau a'r pynciau sy'n effeithio'r Nodweddion Arbennig wedi eu hadnabod er mwyn medru llunio amcanion sy'n delio gyda'r pwysau.

Er mwyn gwneud hyn, bu angen adnabod Gweledigaeth ar gyfer Bryniau Clwyd. Ar ôl nodi'r nodweddion arbennig, mae'n bwysig cael cyflwr delfrydol ar gyfer y nodweddion hyn a'r Bryniau i gyd, sydd wedi ei gytuno a'i ddatgan yn glir. Roedd Cyfnod Dau yn penderfynu ar y weledigaeth hon. Bydd cyflawni'r amcanion a'r camau yn y cynllun hwn yn ein symud yn nes tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon.

9.2 Ymgynghori

Mae'r broses cynllunio rheoli wedi nodi o'r cychwyn bod nifer o gyfranddallwyr gyda diddordeb a dylanwad yn ardal Bryniau Clwyd. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael cyfrannu o'r cychwyn cyntaf wrth adnabod nodweddion arbennig yr ardal, materion sy'n effeithio newid a rheolaeth yr ardal i'r dyfodol.

Er mwyn hwyluso hyn cafwyd ymgynghori helaeth trwy gydol y broses cynllunio rheoli. Datblygodd y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Weledigaeth ar gyfer yr AHNE a rhestr ddrafft o Nodweddion Arbennig ar gyfer Bryniau Clwyd (gweler Adran 3). Heriodd ymgynghoriad ehangach gyda chymunedau ac mewn seminar cyfranddallwyr y





rhestr hon er mwyn sicrhau bod y detholiad terfynol yn adlewyrchu barn pawb. Mewn cyfres o gyfarfodydd cymunedol gofynnwyd i drigolion nodi pa bynciau oedd bwysicaf yn eu barn hwy. Gofynnwyd i gyfranddalwyr a'r holl gyrff sydd â dylanwad rheoli yn yr AHNE i helpu adnabod y prif bwysau a effeithiai'r nodweddion arbennig a'u hymateb iddynt (gweler atodiad 1 am fanylion). Yna anfonwyd yr adroddiad drafft ar gyfer ymgynghoriad ac ymgorffori sylwadau'r cyfranddalwyr cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol.

